## Dŵr Anafon – Grant Arbed Ynni
### Canllawiau Gwneud Cais

Darllenwch y canllawiau hyn cyn cwbháu a chyflwyno eich cais os gwelwch yn dda.

Os oes arnoch angen gwybodaeth bellach, cysylltwch â info@dwranafon.co.uk

### Beth yw Grant Arbed Ynni Dŵr Anafon?

Y grant yw un o'r ffrydiau grantiau a reolir gan Ddŵr Anafon, Cwmni Ymgorfforedig Elusennol a sefydlwyd i ddosbarthu elw defnyddiadwy Ynni Anafon, menter hydroelectrig gymunedol uwchlaw Abergwyngregyn. Sefydlwyd y grant yma i wella'r stoc tai yn Abergwyngregyn trwy gefnogi mesurau gwella effeithlonrwydd ynni. Pob blwyddyn ariannol (Ebrilll – Mawrth), mae ymddiriedolwyr yn clustnodi cyfran o'i arian, (cyn belled ag y bo arian ar gael), at y pwrpas hwn. Dim ond ar gyfer eiddo yn Abergwyngregyn y mae'r cynllun hwn ar gael.

### Trosolwg

Ystyrir unrhyw fath o waith a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni'r eiddo, megis insiwleiddio, triniaeth gwrth-ddamprwydd, newid ffenestri ac ati. Cyn gwneud cais am grant, disgwylir i ymgeiswyr gomisiynu arolwg Mesurau Effeithiolrwydd Ynni (EMM) ar eu cartref, i gael ei gwblháu gan wirfoddolwr hyfforddiedig (gellir darparu enwau) neu gan rywun proffesiynol addas.
Bydd yr arolwg yn cael ei gyflwyno i ymgynghorydd ynni wedi ei gymeradwyo megis Peter Draper, Rounded Developments, iddynt lunio adroddiad. Bydd yr adroddiad yn seiliedig ar ddarganfyddiadau'r arolwg, bydd yn cynnig argymhellion ac yn uwcholeuo'r gwaith mwyaf angenrheidiol. Dyma'r wybodaeth y byd ei angen ar ymgeiswyr i gefnogi eu cais i Ddŵr Anafon am gymorth gyda'r costau. Noder y bydd ARC yn rhoi 50% tuag at gostau'r adroddiad.

Bydd pob cais yn cael ei wirio gan ddau ymddiriedolwr penodedig i sicrháu bod y gofynion wedi eu cyrraedd a bod yr holl wybodaeth a dogfennau cefnogol wedi eu cynnwys. Unwaith y byddant wedi eu gwirio, ystyrrir ceisiadau gan yr ymddiriedolwyr yng nghyfarfod nesaf y bwrdd; noder **na** rennir manylion yr arolwg gyda'r ymddiriedolwyr eraill er mwyn lleiháu'r angen i rannu ac i ddiogelu data.

### Argaeledd ariannu

Bydd gan bob eiddo sy'n cyrraedd y gofynion yr hawl i grant unwaith–yn-unig o £500.

Bydd grant pellach o hyd at £2,000 ar gael i'r rhai sy'n cyrraedd y gofynion ac sydd yn gallu matsio'r swm a ddarperir gan Ddŵr Anafon, un ai o'u coffrau eu hunain ac/neu arian a ddarperir gan elusen neu wasanaeth arall.

Gall ymgeiswyr wneud cais fwy nag unwaith o fewn unrhyw un flwyddyn ariannol (Ebrill-Mawrth), hyd at uchafswm o £2,500 yn y flwyddyn gyntaf, a hyd at £2,000 mewn blynyddoedd dilynol, i gyd gyda'r amodau fel yr uchod. Ystyrrir ceisiadau yn ddibynnol ar argaeledd arian ar y pryd.

### Eithriadau

Ariannu ôl-dremiol – ni ystyrrir gwaith sydd eisoes wedi ei gwblháu neu wedi ei ddechrau.
Eiddo oddi allan i ffiniau Abergwyngregyn

**Cwblháu'r ffurflen gais.**

**Adran 1 – Amdanoch chi**

Cwblhewch yr adran hon fel y bo'n addas os gwelwch yn dda..

**Adran 2 – Am eich Cynllun Effeithlonrwydd Ynni**

Dywedwch wrthym beth rydych yn dymuno ei wneud a chyfeiriad yr eiddo ble mae'r gwaith i gael ei gwblháu os ydyw'n wahanol i'r cyfeiriad yn adran 1.

Dim ond gwelliannau a awgrymwyd yn eich adroddiad arolwg EEM y gall Dŵr Anafon eu cefnogi felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ei gynnwys gyda'ch cais.

Byddwch yn realistig gyda'ch dyddiadau cychwyn a gorffen; bydd materion megis ennill caniatád cynllunio a gwaith strwythruol gymryd mwy o amser nag y disgwylir.

**Adran 3 – Gwybodaeth Ariannol/Amcangyfrifon a Dderbyniwyd**

Mae'r adran yma'n delio gyda'r costau sydd ynglŷn â'r cynllun.

Rhestrwch bob eitem yr ydych yn ceisio am arian ar ei gyfer os gwelwch yn dda a darperwch dri amcangyfrif gwahanol ar gyfer pob un. Noder y bydd gofyn i chi gynnwys rhain gyda'r cais.

Rhestrwch pob ariannwr neu ddarpar ariannwr os gwelwch yn dda, y rhai sydd eisoes wedi eu cadarnháu a'r rhai na chawsant eu cadarháu eto, a'r swm rydych yn ei geisio ganddyn nhw.

I gloi, ar ddiwedd yr adran yma dywedwch faint o gymorth grant rydych yn gofyn amdano oddi wrth Ddŵr Anafon

**Adran 4 – Rhestr Wirio'r Cynllun**

Cyfeiriwch at restr wirio'r cynllun ar dudalen olaf y ffurflen os gwelwch yn dda a chynhwyswch yr holl ddogfennau pan fyddwch chi'n cyflwyno eich cais.

**Cyflwyno'r Grant**

Bydd pob ymgeisydd yn cael eu hysbysu am ganlyniad eu cais.

Bydd unrhyw arian y cytunir i'w roddi i ymgeiswyr yn cael ei ddarparu ar ffurf siec neu drosglwyddiad banc i mewn i'w banc hwy, fel y mynnont, unwaith y bydd y gwaith wedi ei gwblháu ac y bydd derbynebau ac anfonebau wedi eu cyflwyno.